2148

# ADGOFION MEBYD.

Tôn—"*Isle of Beauty.*"

Ar adenydd chwai dychymyg,
  Hed fy meddwl ar ei hynt,
Yn nghyfeillach mwyn adgofion
  I fy hen gynefle gynt—
Tua'r Geirth, Ha! fwthyn dinod,
  Cartref fy mabandod cu;
Ond rhaid rhestru'r dedwydd dymor
  Yn medd tawel dyddiau fu.

Boreu einioes a enciliodd,
  Gwrid ieuenctyd droes ei gefn,
A phleserau hoff plentynaidd
  Ni ddychwelant hwy drachefn·
Os ffarweliodd cyfnod hyfryd
  Oriau difyr mebyd llon,
Aros mae adgofion melus
  Eto'n fwy y fynyd hon.

Adgof o'r gorphenol ddyry
  I mi weithiau ail fwynhad
O'r gymdeithas siriol gefais
  Gynt ar aelwyd mam a thad,
Lle bu brodyr llon caruaidd
  Gyda llariaidd chwaer ddinam,
A'u diniwed ymddyddanion
  O dan nodded tad a mam.

Ein dyfodol ni a fyddai
  Gwrthrych gweddi 'nhad o hyd,

X2092454073

Ac mae 'i addysg megys llusern
  I oleuo t'w'llwch byd;
O! gyngorion gwerthfawr gafwyd
  Ar yr aelwyd fechan lân,
Erys eu goludog wersi
  Pan â cyfoeth byd yn dân.

Pa le mae fy hoff gyfoedion
  Nwyfus serchog erbyn hyn?
Fe atebai'r awel falmaidd,
  O dan dywyll leni'r glyn;
Ereill chwalwyd gan awelon
  I estronol barthau'r byd,
Ac nid oes neb ddichon heddyw
  Alw'th geraint hoff yn nghyd.

Mae fy anwyl dad yn huno
  O dan gwrlid gwyrdd y bedd,
Beth a wnaf, byth mwy nis gwelaf
  Fwyn sirioldeb ar ei wedd;
Ond caf fyned eto'n fynych
  At ei feddrod fin yr hwyr:
Maint fy hiraeth am ei weled
  Nid oes neb ond Duw a ŵyr!

Haws yw newid greddf yr alarch,
  Haws yw euro grudd y wawr,
Na dwyn eto deulu cyfan
  Megys cynt i'r Geirth yn awr;
O! mae gruddiau mam yn newid,
  Mae ei gwallt yn troi yn wŷn,
A phob arwydd 'n unol sisial
  Collir hithau gyda hyn.

# DAU GARIAD YN CANU'N IACH.

Tôn—"*Old Lang Syne.*

MERCH. Fy anwyl Gariad, teimlad dwy
Yw hwn, sy'n cynwys cŵyn;
Sef canu'n iach, f'anwylyd bach,
I'th lon gyfeillach fwyn!

MAB. O! canu'n iach! nac enwa'n hwn
Y gair rydd glwy' a gloes;
O! canu'n iach! nac enwa hyn,
O gresyn! na fydd groes.

MERCH. *Ffarwel,* fy anwyl langc dilyth
Hyd byth! nid enyd bach;
Daw dagrau'n lli' o'm llygaid
Gan ini ganu'n iach.

MAB. Paham f'anwylyd? d'wed paham,
Fy nghangen ddinam ddwys;
Mae gwybod pa'm y cani'n iach,
Fy ngeneth bach, o bwys?

MERCH Oferedd siarad, f'anwyl ddyn,
Y peth i derfyn daeth;
Mae tynged syn yn peri hyn,
'Rwy'n gyndyn ac yn gaeth!

MAB. O na fydd greulawn, na fydd groes,
Na ddyro loes i langc;
O! gwae a gwŷn sy ynddwy 'nglyn
'Rwy'n drist fel dyn ar drangc!

MERCH. Paid ag ymddigio wrth y drefn,
Ond tro dy gefn fel gŵr;
Byth ni chei'n llon gofleidio 'mron
Tra byddo dòn mewn dŵr.

| | | |
|---|---|---|
| MAB. | Arafa beth, na dd'wed fel hyn<br>Hyd derfyn olaf d'oes;<br>'Rwy'n caru'n bur, na phâr im' gur,<br>Oer lafur mawr a loes. |
| MERCH. | Nid oes mo'r help, f'anwylyd têg,<br>Mae d' adeg wedi d'od<br>I sefyll draw, ac ysgwyd llaw,<br>Ymadaw coelia 'mod! |
| MAB. | Os felly mae y peth yn bod,<br>Heb gymmod mwy i'w gael,<br>Mi âf i'r bedd! yn llwyd fy ngwedd<br>Dan wall ymgeledd gwael! |
| MERCH. | Ho! arfer meibion yw bob awr<br>D'weyd araeth fawr wrth ferch;<br>Ond wedi eu *treio* nid ŷnt drwm,<br>Nid cymmaint swm eu serch. |
| MAB. | Wel! wel! f'anwylyd, gwelai'n glir<br>Mae byw'n annifyr wnâf;<br>Er pob rhyw lais, er pob rhyw gais,<br>Yr hyn a gefais gâf. |
| MERCH. | Gwir iawn, fy machgen, a *ffarwel!*<br>Iach, dawel fyddych di;<br>Fy nerth a ffoes, 'rwy'n teimlo loes,<br>Dy ddwylaw moes i mi! |
| MAB. | Fy nwylaw'n wir a gei'n ddi goll<br>A'm calon oll ynghyd;<br>Mi gofia'n gu'r gyfeillach fu<br>Tra bwyf yn sengu'r byd. |
| MAB. | *Ffarwel*, fy ngeneth hardd ei gwên!— |
| MERCH. | *Ffarwel*, fy machgen mwyn!<br>O ymaith dôs, 'rwy'n methu dal,<br>I gynnal dan dy gŵyn! |

---

*Caernarfon: Argraffwyd gan H. Humphreys.*